# Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Trebannws Medi 2025 - Medi 2026 (Blwyddyn 2 o'r Targed)

| Blaenoriaeth 1 | Cwestiwn | Creu dysgwyr uchelgeisiol ac hyderus drwy wella Sgiliau Ysgrifennu gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu<br>Arweinydd y Flaenoriaeth : Amy Hart<br>Aelod (au) Llywodraethol: Cllr R Phillips + Mr T Jones |
|---|---|---|

## Pam mae hyn yn flaenoriaeth - beth mae hunan werthusiad yn dweud wrthym fod eisiau gwella?

Dengys systemau monitro bod angen parhau i roi cyfleoedd ysgrifennu trawsgwricwlaidd i'n disgyblion, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i asesu ar gyfer dysgu, gan gynnwys beirniadu eu gwaith eu hunain ac eraill i gywiro, uwchlefelu a chyfoethogi eu hysgrifennu.

**Cyfnod Sylfaen**

Rhoddir gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n drawsgwricwlaidd e.e wrth ddatblygu geirfa trwy chwileiriau, labeli lluniau, trefnu a defnyddio ansoddeiriau ac arddodiaid o fewn brawddegau. Mae genres megis stori'r geni, asesiad aled afal, cerdd acrostig, rhestr caredigrwydd, a ffeil ffeithiau diwrnod Ynyd. *Fodd bynnag, mae angen i hyn fod yn fwy cyson i roi cyfleoedd i gywiro/gwella'u gwaith nad yw'n dasg Aled Afal a pharhau i fagu hyder y disgyblion wrth ysgrifennu.*

## Meini prawf llwyddiant – sut bydd y llwyddiant yn edrych ar ôl blwyddyn?

Sicrhau bod:-

- Hyder a brwdfrydedd disgyblion wrth ysgrifennu yn datblygu a gwella.
- Disgyblion yn parhau i ddatblygu a chymhwyso patrymau megis agoriadau, cysyllteiriau, technegau arddull ac atalnodi i ymestyn ac uwchlefelu brawddegau.
- Parhau i roi cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig yn drawsgwricwlaidd ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion a chyfleoedd i ysgrifennu'n rhydd
- Disgyblion yn dysgu sut i fod yn feirniadol wrth asesu ar gyfer dysgu, a'u bod yn gwybod sut i adolygu, hunan-gywiro ac uwchlefelu eu hysgrifennu

**Blwyddyn 3 a 4**

Mae tystiolaeth o dasgau thematig a thrawsgwricwlaidd sy'n annog sgiliau ysgrifennu megis poster tan gwyllt, ffeil ffeithiau am Amelia Earhart a thasgau iechyd a lles, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol lle all ddisgyblion nodi eu syniadau wrth ysgrifennu'n rhydd. *Serch hynny, dim ond rhai o'r disgyblion sy'n ymateb i dargedau er mwyn cywiro a gwella eu gwaith ysgrifennedig. Mae rhai yn cywiro sillafu, priflythrennau, ond mae angen rhoi amser i ddatblygu rhan bach o'r ysgrifennu ymhellach megis uwchlefelu brawddeg neu ddau/addasu eu dewis o eirfa neu chystrawen brawddeg.*

## Blwyddyn 5 a 6

Mae enghreifftiau o eirio gwych yn modelu genres o safon da gan dynnu sylw disgyblion at nodweddion gwahanol genres a'r geirfa angenrheidiol a thasgau pellach sy'n adeiladu ar sgiliau sylfaenol megis casglu enghreifftiau o eirfa berswadiol, uwchlefelu paragraffau, gwerthuso arddull paragraffau perswadiol a berfau cryno. *Serch hynny, mae angen sicrhau bod amser yn cael ei rhoi i ddisgyblion graffu'n fanwl ar rhan o'r gwaith ysgrifennedig gan gywiro/uwchlefelu rhan o'r gwaith yn ôl y gofyn a sicrhau bod y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn fwy aml wrth i hyder y disgyblion wella.*

*Felly, bydd parhau i ddatblygu systemau gwell, i gynnal gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu, gyda ffocws ar wella gwaith, yn rhan hanfodol o gynnydd a datblygiad parhaus yn flaenoriaeth y flwyddyn nesaf.*

[redacted]